# Powys County Council
# Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 10th May 2016. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.



| | |
|---|---|
| **Councillor:** Gemma-Jane Bowker | **Tel:** 01686 951104 |
| **Ward:** Newtown Llanllwchaiarn North | **Mobile:** 07816 204762 |
| **Shire:** Montgomeryshire | **Email:** cllr.gemma.jane.bowker@powys.gov.uk |
| **Group:** Welsh Liberal Democrats | **Date:** September, 2016 |



**Section 1: Role & Responsibilities**

It has been a very busy 12 months with all the changes and challenges to Council. I served on these Powys County Council committees [actual attendance/number of meetings held] and working groups:
Powys County Council – 2/8
People Scrutiny Committee – 2/4

- Adult Social Care Working Group
- Cultural Services Working Group

Democratic Services Committee – 1/3

- Constitution Working Group

Montgomeryshire – 6/7

I served on the following outside organisations:
Theatr Hafren Board of Management
Maldwyn Leisure Centre Board of Management
Newtown High School Board of Governors as an LEA Governor
Ysgol Cedewain Board of Governors as an LEA Governor

I drafted and proposed a motion to Council about public participation at Council meetings in order to enhance transparency and public engagement. This was passed by councillors and I hope that it will lead to opportunities for members of the public to address elected members.

**Section 2: Constituency activity**

In addition to meetings and activities of the organisations and committees listed above, I have also attended meetings of:
Northside Residents Association
Northside Community Hall committee.

- I have delivered Focus newsletters to households, attended Police Community Support Officer [PCSO] surgeries to raise local issues and attended, and fed into, consultations that have affected my ward and its residents, including those on services for older people, dog fouling, transport and rubbish collections.
- I have worked hard to ensure the ward looks and functions as smoothly as possible by monitoring projects taking place, ensuring issues to do with waste, potholes, lighting and drains are reported, litter picking and assisting with schemes to enhance the area.
- I undertook a range of casework on behalf of residents relating to housing, benefits, waste, parking, speeding, local environment, transport, planning and other issues.

Residents contacted me by phone, email, in person and I spoke to people about their concerns by going around the ward and by knocking on doors.

- I gave evidence at the Newtown Bypass Inquiry on behalf of my residents, supporting the bypass and highlighting the use of my ward by vehicles attempting to circumvent congestion on the A483.
- I worked with local residents, the local environment team and the Town Council to highlight problems with dog fouling in the ward, tackle problem spots and ensure new bins were put in place.

**Section 3: Learning & Development**

Property Update; Resilience training; Mid Wales Healthcare Collaborative; Budget seminars 1 & 2; Treasury Management; Dementia Friendly Communities

**Section 4: Outside organisations and other activities**

I gave birth to my second child (a daughter, Minerva) in January and she has already attended meetings in County Hall.

I also attended meetings as a member of:
Powys County Council Cross Party Anti-Poverty Action Group
Newtown Town Council (representing Newtown and Llanllwchaiarn North Ward) and a member of the Town Council Regeneration Committee
Northside Residents Association and assisted with a project to develop and create an outdoor heritage park in the ward
Newtown Health Forum

`

# Cyngor Sir Powys
# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd yn ystod y flwyddyn yn diweddu 10 Mai, 2016. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd** Gemma-Jane Bowker | **Ffôn:** 01686 951104 |
| **Ward:** Gogledd Llanllwchaearn Y Drenewydd | **Ffôn symudol:** 07816 204762 |
| **Ardal:** Sir Drefaldwyn | **E-bost:** cllr.gemma.jane.bowker@powys.gov.uk |
| **Grŵp:** Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | **Dyddiad:** Medi 2016 |

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Mae wedi bod yn 12 mis hynod brysur gyda'r holl newidiadau a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor. Gwasanaethais ar y pwyllgorau a'r gweithgorau hyn o Gyngor Sir Powys [presenoldeb gwirioneddol / nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd]:
Cyngor Sir Powys – 2/8
Pwyllgor Craffu Pobl - 2/4
- Gweithgor Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Gweithgor Gwasanaethau Diwylliannol

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – 1/3
- Gweithgor y Cyfansoddiad

Sir Drefaldwyn – 6/7

Gwasanaethais ar y cyrff allanol hyn:
Bwrdd Rheoli Theatr Hafren
Bwrdd Rheoli Canolfan Hamdden Maldwyn
Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Y Drenewydd fel Llywodraethwr yr Awdurdod Addysg Lleol [AALl]
Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Cedewain fel Llywodraethwyr AALl

Drafftiais a chynigais gynnig i'r Cyngor am gyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd y Cyngor er mwyn gwella tryloywder ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Derbyniwyd y cynnig gan y cynghorwyr ac rwy'n gobeithio y bydd yn rhoi cyfleoedd i aelodau o'r cyhoedd i annerch aelodau etholedig.

**Adran 2: Gweithgaredd yr etholaeth**

Yn ogystal â chyfarfodydd a gweithgareddau'r sefydliadau a'r pwyllgorau a restrir uchod, rwyf hefyd wedi mynychu cyfarfodydd:

Cymdeithas Trigolion Northside
Pwyllgor Neuadd Gymunedol Northside.

- Rwyf wedi dosbarthu cylchlythyron Ffocws i aelwydydd, wedi mynychu cymhorthfeydd Swyddogion Cymorth cymunedol yr Heddlu [PCSO] i godi materion lleol ac wedi mynychu ymgynghoriadau sy'n effeithio ar fy ward a'i drigolion, gan gynnwys y cyfarfodydd ynglŷn â gwasanaethau i bobl hyn, cwn yn baeddu, cludiant

a chasgliadau sbwriel.

- Rwyf wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y ward yn edrych ac yn gweithredu mor llyfn ag sydd modd trwy fonitro'r prosiectau sydd ar waith, a sicrhau bod rhywun yn adrodd ar broblemau sy'n ymwneud â gwastraff, tyllau yn y ffordd, goleuadau a draeniau, codi sbwriel, a chynorthwyo gyda chynlluniau i wella diwyg yr ardal. Mae trigolion wedi cysylltu â mi dros y ffôn, trwy'r e-bost ac wyneb-yn-wyneb ac rwyf wedi bod yn siarad â phobl ar garreg y drws ledled fy ward.
- Rhoddais dystiolaeth yn Ymholiad Ffordd Osgoi'r Drenewydd ar ran fy nhrigolion, gan gefnogi'r ffordd osgoi ac yn tynnu sylw at y defnydd sy'n cael ei wneud gan gerbydau sy'n ceisio osgoi'r tagfeydd ar yr A483 o'r ffyrdd yn fy ward.
- Bum yn gweithio gyda thrigolion lleol, y tim amgylchedd lleol a'r Cyngor Tref i dynnu sylw at broblemau gyda chŵn yn baeddu yn y ward, yn delio â mannau sydd â phroblemau penodol a sicrhau bod biniau newydd yn cael eu gosod.

**Adran 3: Dysgu a Datblygu**

Diweddariad Eiddo; Hyfforddiant Cadernid; Grwp Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru; Seminarau'r gyllideb 1 a 2; Rheoli'r Trysorlys; Cymunedau sy'n Deall Dementia.

**Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill**

Rhoddais enedigaeth i fy ail blentyn (merch, Minerva) ym mis Ionawr, ac mae hi eisoes wedi mynychu cyfarfodydd yn Neuadd y Sir.

Mynychais cyfarfodydd fel aelod o:
Gweithgor Gwrth-dlodi Trawsbleidiol Cyngor Sir Powys
Cyngor Tref Y Drenewydd (gan gynrychioli Ward Gogleddol Y Drenewydd a Llanllwchaearn) ac aelod o Bwyllgor Adfywio Cyngor y Dref
Cymdeithas Trigolion Northside a chynorthwyo gyda prosiect i ddatblygu a chreu parc treftadaeth awyr agored yn y ward
Fforwm Iechyd Y Drenewydd